❖ Iesu y Seren

(Carol; Tôn: ‘Schubert’)

Ar draws yr anialwch yn rymus o draw
Ymdeithiai plant Israel, a llwydd ar bob llaw;
A Balaam, Weledydd, o’i wlad gafodd wŷs
I ddod a melltithio’u minteioedd ar frys:
Ond gwelai yn codi ryw ddydd Seren wiw
A methodd roi melltith ar ben pobl Dduw.

Ymdeithio wnâi doethion ymlaen dros y paith
Gan wybod bod Seren ar derfyn eu taith;
Brenhinoedd o’r dwyrain yn teithio mewn brys
Â golud cenhedloedd, yn aur ac yn thus,
I’r baban mewn preseb, y Seren wen dlos,
A’r golau’n ei wyneb yn ymlid y nos.

Yr Arglwydd i’w deml yn faban a ddaeth,
Cyffroi holl feddyliau’r lle sanctaidd a wnaeth:
Simeon a welodd ddydd mawr ei ryddhad,
Ac Anna, broffwydes, a daenai’i fawrhad.
Y duwdod yn wyneb y baban ei Hun
A Seren y Bore yn rhodd i bob un.

Ac yntau’n y deml yn fab deuddeg oed,
Fe wyddai mai hon oedd ei gartref erioed.
Er tybied ei golli, a’i geisio cyhyd,
Fu neb ’rioed yn sicrach o’i rawd yn y byd:
Fe dyfodd mewn maint a doethineb a ffydd, –
Y Seren ddisgleiriai yn loywach bob dydd.

Er weithiau ei golli yn nüwch y byd,
Mae’n aros, heb gilio, yn ei unfan o hyd:
Mae’n aros uwchben llety llwm teulu’r nos
Yn Seren Dynolryw, oleulon a thlos.
Gan edrych ar Iesu ymdeithiwn mewn ffydd,
Nes codi’n ein calon y Glaer Seren Ddydd.

Haydn Davies

℗ Cyhoeddiadau’r Gair www.ysgolsul.com